# Rhestr o symptomau dementia posibl

Alzheimer's Society Cymru
Gyda'n gilydd, byddwn yn cynnig help a gobaith i bawb sy'n byw gyda dementia

Bydd y rhestr hon yn eich helpu i gael sgwrs gyda meddyg neu weithiwr iechyd arall. Defnyddiwch y rhestr i nodi unrhyw drafferthion rydych chi wedi'u cael.

Fydd y rhestr hon ddim yn rhoi diagnosis o ddementia nac unrhyw gyflwr iechyd arall. Mae pawb yn cael profiad gwahanol o ddementia. Mae'r rhestr hon yn cynnwys arwyddion cyffredin o ddementia. Ond mae'n bosibl bod rhesymau eraill am y newidiadau rydych chi wedi sylwi arnyn nhw.

Siaradwch â'ch meddyg neu weithiwr iechyd arall am y pryderon rydych chi'n eu nodi ar y rhestr.

## Problemau cofio a gallu meddyliol

| Problemau cofio a gallu meddyliol | Ticiwch os yw'n digwydd i chi | Ticiwch os yw'n digwydd bob dydd | Ers pryd |
|---|---|---|---|
| Colli'r cof – cael trafferth dysgu gwybodaeth newydd neu anghofio digwyddiadau diweddar neu enwau pobl | | | |
| Cael trafferth meddwl am y gair iawn | | | |
| Cael trafferth mesur pellter neu gamgymryd adlewyrchiad neu batrwm am rywbeth eraill | | | |
| Colli synnwyr o amser a dyddiadau | | | |
| Gofyn yr un cwestiwn dro ar ôl tro, neu ailadrodd pethau | | | |
| Rhoi pethau mewn llefydd anarferol | | | |

## Problemau gyda gweithgareddau bob dydd

| Problemau gyda gweithgareddau bob dydd | Ticiwch os yw'n digwydd i chi | Ticiwch os yw'n digwydd bob dydd | Ers pryd |
|---|---|---|---|
| Cael trafferth gyda thasgau fel talu biliau, cynllunio ymlaen llaw, siopa | | | |
| Ddim yn cael digon o gwsg | | | |
| Mynd ar goll mewn llefydd cyfarwydd | | | |

## Problemau tymer ac ymddygiad

| Problemau tymer ac ymddygiad | Ticiwch os yw'n digwydd i chi | Ticiwch os yw'n digwydd bob dydd | Ers pryd |
|---|---|---|---|
| Ypsetio neu wylltio'n hawdd | | | |
| Symptomau iselder, fel teimlo'n drist neu'n anobeithiol | | | |
| Mynd i'ch cragen neu golli diddordeb mewn pethau roeddech chi'n arfer eu mwynhau | | | |
| Gwneud pethau amhriodol neu'n groes i gymeriad | | | |
| Teimlo'n aflonydd a cherdded o gwmpas | | | |

## Nodiadau ar Symptomau neu Bryderon Eraill

## Problemau Clyw

Dyddiad eich prawf clyw diwethaf:

## Problemau Gweld

Dyddiad eich prawf llygaid diwethaf:

Alzheimer's Society, 2023 Cedwir pob hawl. Ac eithrio ar gyfer defnydd personol, ni cheir dosbarthu, atgynhyrchu, lawrlwytho, trosglwyddo na storio unrhyw ran o'r gwaith hwn mewn unrhyw ffurf heb ganiatâd ysgrifenedig gan Alzheimer's Society Cymru.

Rhif cofrestru'r elusen 296645. Cwmni cyfyngedig trwy warant a'r rhif cofrestru yn Lloegr 2115499. Mae'r Alzheimer's Society yn gweithredu yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon.

Cod 78DD Rhestr symptomau

Wedi'i gymeradwyo gan Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol

RCGP Royal College of General Practitioners